| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **07 TACHWEDD 2014** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **DIWEDDARIAD TRACIO ARGYMHELLION** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ER GWYBODAETH** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **RHEOLWR ARCHWILIO** |
| **GWEITHREDU:** | **D/B** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae gan y Cyngor feddalwedd (4Action) sy'n cofnodi argymhellion a chamau gweithredu arfaethedig ac mae'n dyrannu'r rhain i unigolion penodol gyda dyddiad gweithredu wedi'i gytuno.

1.2 Y trefniadau cyfredol yw bod Archwilio Mewnol yn rhoi i mewn yr argymhellion Archwilio Mewnol a gytunwyd, a'r swyddogion cyfrifol ac amserlenni o adroddiadau ymlaen ar 4Action. Bydd defnyddwyr wedi'u nodi i'r pwrpas ym mhob gwasanaeth yn mynd i'r system i ddiweddaru unrhyw gamau a gymerwyd i weithredu'r argymhellion. Mae'r diweddariadau hyn yn seiliedig ar hunanasesiad o'r statws gweithredu.

1.3 Prif ddefnyddwyr y system yw Archwilio mewnol sy'n ei ddefnyddio i gofnodi argymhellion Archwilio Mewnol ac i lunio adroddiadau i gydranddeiliaid (yn cynnwys yr UDA a'r Pwyllgor Archwilio) ynglŷn â chyfraddau gweithredu o fewn Gwasanaethau. Mae'r adroddiadau hyn yn seiliedig ar gyfanswm nifer yr argymhellion a chanrannau graddfeydd gweithredu yn ôl Gwasanaeth yn hytrach nag ar fanylion ynglŷn ag argymhellion unigol.

1.4 Mae Gwasanaethau eraill wedi defnyddio, ac maent yn parhau i ddefnyddio'r system, i gofnodi'r camau gweithredu sydd eu hangen ond nid i unrhyw raddfa.

1.5 Bydd Archwilio Mewnol yn llunio adroddiadau o'r system ynglŷn ag argymhellion sydd heb eu gweithredu cyn pob Pwyllgor Archwilio lle mae'r adroddiad cynnydd i fod i gael ei gyflwyno. Bydd y cais i ddiweddaru 4Action gydag adroddiad argymhellion manwl yn cael ei anfon i'r Gwasanaethau perthnasol gyda chais i'r system 4Action gael ei diweddaru cyn y diwrnod cau ar gyfer adroddiadau terfynol i UDA a'r Pwyllgor Archwilio.

## 2. DATBLYGIADAU DIWEDDAR

2.1 Yn yr adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol mwyaf diweddar rydym wedi dechrau cynnwys manylion o'r argymhellion categori Uchel sy'n parhau heb gael sylw yn cynnwys targedau gweithredu cychwynnol a dilynol a hefyd y swyddog sy'n gyfrifol am y gweithredu.

2.2 Mae adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol gyda manylion yr argymhellion Categori Uchel sydd eisioes heb eu gweithredu yn cael eu cyflwyno i'r UDA cyn mynd i'r Pwyllgor Archwilio fydd wedyn yn codi proffil y materion hyn.

## 3. CYFRADDAU GWEITHREDU CYFREDOL

3.1 **Argymhellion Uchel a Chanolig** - Yn ystod y deuddeng mis hyd at 14-10-14 fe wnaed 156 o argymhellion categori Uchel a Chanolog gan Archwilio Mewnol. O'r rhain roedd 45 heb gyrraedd eu dyddiad targed ar gyfer gweithredu ar 14-10-14 gyda hynny'n gadael 111 wedi mynd heibio eu dyddiad gweithredu a gyda 81% ohonynt naill ai wedi eu gweithredu neu wedi'u disodli; roedd 14% yn cael eu gweithredu a 5% eto i'w gweithredu.

3.2 **Yr holl argymhellion –** Yn ystod y deuddeng mis hyd at 14-10-14 roedd 258 o argymhellion a oedd naill ai'n Uchel, Canolig, Isel neu yn argymhellion heb gategori a wnaed gan Archwilio Mewnol. O'r rhain roedd 60 heb gyrraedd eu dyddiad targed i'w gweithredu ar 14-10-14 oedd yn gadael 198 heibio eu dyddiad gweithredu gyda 86% naill ai wedi eu gweithredu neu eu disodli, 8% yn cael eu gweithredu a 7% eto i'w gweithredu.

_____DIWEDD Y DDOGFEN ____